Cofnodion Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ddydd Llun, 19 Rhagfyr 2016 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Cynghorydd Geraint Woolford (Maer), Cynghorydd James Bryan (Dirprwy Faer) a'r Cynghorwyr Stephen Beach, Elisabeth Culshaw, June Derry, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Heather Williams and Emrys Wynne.

147. MR DARREN MILLAR, AC

Croesawodd y Maer Darren Millar, Aelod Cynulliad Gorllewin Clwyd. Diolchodd i'r aelodau am y cyfle i gyfarfod â'r Cyngor Tref yn flynyddol a dywedodd fod ganddo dri phrif bwynt i'w trafod. Y cyntaf oedd yr hysbysiad ar 30 Tachwedd o'r bwriad i gau cangen banc y NatWest yn Rhuthun ym Mehefin 2017 a fyddai'n cael effaith echrydus ar y gymuned, yn achosi ansicrwydd i'r staff ac yn codi pryderon am ddyfodol yr adeilad hanesyddol allweddol hwn. Dywedodd y byddai'n cael cyfarfod â chynrychiolwyr y banc ar 13 Ionawr, a gofynnodd am gael ei hysbysu ynghylch trafodaethau Cyngor Tref Rhuthun gyda'r NatWest. Yr ail bwynt oedd eu hysbysu am fuddsoddiad gwerth £18 miliwn mewn cyfleuster gofal amenedigol is-ranbarthol newydd yn Ysbyty Glan Clwyd gydag ymgynghorwyr a staff wedi'u penodi, a chynlluniau i greu maes parcio newydd yn cynnwys 167 lle parcio ychwanegol. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod mewn mesurau arbennig am 18 mis ac mae'r gwasanaethau iechyd meddwl yn parhau i fod yn anfoddhaol ac nid oes strategaeth yn bodoli ar gyfer hyn. Yn drydydd cyfeiriodd at yr ysgolion lleol, gyda gwaith wedi dechrau ar safle Glasdir ond mae dyfodol safle presennol Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras yn ansicr. Awgrymodd y dylid cadw'r hen adeilad ysgol Fictoraidd. Cyfeiriodd hefyd at yr ymosodiad ar y Cynghorydd Elisabeth Culshaw yn ei chartref ei hun, a chanmolodd yr ymateb rhagorol gan yr heddlu. Estynnwyd gwahoddiad i'r aelodau ofyn cwestiynau neu wneud sylwadau. Cyfeiriwyd at ddyfodol Cartref Gofal Preswyl Awelon a Chanolfan Awelon, gydag adroddiad yn amlinellu pum dewis i'w ystyried mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu ar 6 Ionawr. Awgrymodd aelod y gellid lleoli cartref gofal ar hen safle Ysgol Pen Barras ac Ysgol Stryd y Rhos, a fyddai'n lleoliad delfrydol drws nesaf i Ysbyty Rhuthun i ddarparu gofal preswyl a gofal seibiant.
PENDERFYNWYD*: nodi'r cyflwyniad.*

148. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Bob Costain.

149. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

150. ADRODDIAD Y MAER

Darllenodd y Maer lythyr o ddiolch gan y Lleng Brydeinig am gyfraniad Cyngor Tref Rhuthun i Apêl y Pabi Coch ac adroddodd am yr ymweliadau a ganlyn ers y cyfarfod blaenorol.

29.11 Cyngerdd i drigolion Awelon gyda Chôr y Porthmyn
03.12 Ffair Nadolig Meithrinfa Y Felin
Goleuo'r goleuadau Nadolig
04.12 Strafagansa Nadolig yn y Cross Keys
05.12 Cyngerdd plant i drigolion Awelon
Cyngerdd Carolau Sefydliad Buddiannol Amaethyddol Brenhinol (RABI) yn Ocsiwn Rhuthun
06.12 Gwasanaeth Carolau Nadolig Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych yn Eglwys y Santes Fair, Rhuddlan
08.12 Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun
09.12 Siopa hwyr yn y Garment Spa
Ffair Nadolig Ysgol Stryd y Rhos

Gwasanaeth Hosbis San Cyndeyrn yn Eglwys Sant Pedr
13.12 Ymweld â'r tîm OWL yn Tesco
Cyngerdd carolau Nadolig Ysgol Stryd y Rhos
15.12 Carolau Nadolig yn Ysbyty Rhuthun a chyflwyno'r cysuron Nadolig
16.12 Agoriad Y Gorfforaeth
Dosbarthu cysuron y Nadolig i Awelon, Llys Awelon, Abbeyfield, Tan y Castell, Trosnant, Trem y Foel, Llys Erw a Llys Marchan.
Parti Nadolig i bensiynwyr yn Awelon
19.12 Sion Corn yn y Candy Shack

151. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. James Bryan	Goleuo'r goleuadau Nadolig, cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun a Gwasanaethau Carolau Clwb Rotari Rhuthun.
Cyng. Stephen Beach	Gwarchod Cymdogaeth Gogledd Cymru, gwasanaeth carolau Clwb Rotari Rhuthun ac OWL yn Tesco
Cyng. Robert Owen-Ellis	Cyfarfod llywodraethwyr Ysgol Pen Barras, Banc Bwyd a chasgliad gan y Banc Bwyd yn Tesco, cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, cyngerdd Côr Cytgan Clwyd, gwasanaeth carolau Clwb Rotari Rhuthun, cyngerdd Nadolig Meithrin a Derbyn a Chyngor Allweddol 2 Ysgol Pen Barras a gwasanaeth Nadolig Ysgol Brynhyfryd.
Cyng. Menna Jones	Banc Bwyd, goleuo'r goleuadau Nadolig, cyngerdd blynyddol Côr Rhuthun, gwasanaeth carolau Ysgol Borthyn, croesawu cerddwyr noddedig Cymorth Cristnogol a Chytun i Rhuthun a chyfarfod pwyllgor cynghori Llys Marchan.
Cyng. Rosie Hughes-Moseley	Gwasanaeth Sul y Cofio a'r farchnad Nadolig a goleuo'r goleuadau Nadolig.
Cyng. Ian Lewney	Y farchnad Nadolig – gosod a chludo'r stondinau ymaith a goleuo'r goleuadau Nadolig a chyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun.
Cyng. Anne Roberts	Rhestr i'w chyflwyno yn y cyfarfod nesaf.
Cyng. Emrys Wynne	Goleuo'r goleuadau Nadolig, cyngerdd blynyddol Côr Rhuthun yng Nghapel Tabernacl gyda Chôr Godre'r Garth, gwasanaeth carolau Clwb Rotari Rhuthun a gwasanaeth yn Llanfwrog.

152. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2016 yn gywir, yn amodol ar ychwanegu adroddiadau aelodau'r Cynghorydd Ian Lewney a'r Cynghorydd Rosie Hughes-Moseley.*

153. MATERION YN CODI

Darparodd y Clerc ddiweddariad pellach ynghylch enwi'r Ffordd Gyswllt Ogleddol yn Ffordd Glasdir, gydag ymgynghori'n digwydd â'r tri Chynghorydd Sir sy'n cynrychioli ward Rhuthun ar hyn o bryd. Adroddodd y Maer mai cost baner i'w harddangos yng Nghlwb Peldroed Rhuthun fyddai £100, ynghyd â thaliad blynyddol o £250 ac y byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y cyngor.

154. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2016.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

155. YR IS-BWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL

Cyflwynodd Cadeirydd yr Is-bwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 25 Gorffennaf ac 18 Ebrill 2016.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

156. YMATEB I'R CYHOEDDIAD CAU BANC NAT WEST RHUTHUN

Cyflwynwyd yr eitem gan y Maer a darllennodd neges e-bost gan y Gwir Anrhydeddus David Jones AS yn dilyn ei gyfarfod â Mr Michael German, Prif Swyddog Gweithredol NatWest gogledd Cymru, yn esbonio'r rhesymau am y penderfyniad a'r posibilrwydd y byddai'r adeilad ar gael ar gyfer defnydd cymunedol. Mynegodd yr aelodau eu gwrthwynebi i gau'r banc, gan gyfeirio at ddeiseb sy'n mynd o gwmpas siopau a busnesau'r ardal, a'u pryderon y gallai cau un banc arwain at gau banciau eraill. Awgrymwyd sefydlu gweithgor i ystyried posibiliadau defnyddio'r adeilad fel amgueddfa/canolfan groeso.

PENDERFYNWYD*: gwrthwynebu cau Banc NatWest yn Rhuthun a bod y Maer yn llunio llythyr i'r perwyl hynny i'w ddosbarthu i'r holl aelodau am sylwadau cyn ei anfon.*

157. PROSIECT iBEACONS

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried p'un ai i gymryd rhan yn y prosiect am gyfraniad o £750.00, yn dilyn y cyflwyniad yn y cyfarfod blaenorol. Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch prosiectau blaenorol nad oeddynt wedi'u gwerthuso a'r trefniadau i'r prosiect hwn barhau yn dilyn ei sefydlu. Cynigiodd aelod na ddylai Cyngor Tref Rhuthun gymryd rhan yn y prosiect.

PENDERFYNWYD*: peidio â chymryd rhan yn y prosiect iBeacons.*

158. ADNEWYDDU AELODAETH CYMDEITHAS CLERCOD CYNGHORAU LLEOL

Ystyriodd yr aelodau adnewyddu aelodaeth y Clerc yn y Gymdeithas uchod yn 2017, sy'n ddyledus ar 1 Ionawr 2017, ar gost o £139.00.

PENDERFYNWYD*: adnewyddu aelodaeth y Clerc gyda'r Gymdeithas ar gost o £139.00.*

159. CRONFA BENSIWN CLWYD

Ystyriwyd talu'r ffi actiwaraidd diwygiedig o £900.00 i fod yn aelod o Gronfa Bensiwn Clwyd.

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo'r taliad.*

160. GOHEBIAETH

Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r ohebiaeth isod:
Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ynghylch yr ymgynghoriad ar yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru.

PENDERFYNWYD*: nodi'r ohebiaeth.*

161. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Tachwedd 2016.

PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Tachwedd 2016.*

162. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r taliadau isod.*

966	Y Lleng Brydeinig	Cyfraniad blynyddol		£50.00
967	Un Llais Cymru	Hyfforddiant Defnyddio TG, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol		£45.00
968	Cyng. Geraint Woolford	Ail randaliad Lwfans y Maer		£600.00
969	Fineline	Nwyddau swyddfa	*	£28.66
970	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol		£252.83
971	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£90.00
972	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Adnewyddu'r tanysgrifiad blynyddol		£55.00

163. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 23 Ionawr 2017 am 7:00pm.*